Canolradd (Gogledd)

Chwarae'r Gêm - Act 2

(Nodyn i'r Tiwtor: Os dach chi'n dilyn Cwrs Canolradd CBAC (y gogledd) mi fydd y ddrama hon yn addas unrhyw bryd ar ôl Uned 5.)

Yr ystafell newid yn Stadiwm San Germano. Mae tîm Caerddinas yn newid. Mae Gwyn Thomas, Rheolwr Caerddinas, yn siarad â nhw.

Gwyn: Iawn. Mae heno yn noson bwysig! Mae 'na gyfle i ni fynd i'r rownd nesa ym Madrid heno. Ni ydy'r ffefrynnau. Ni sy'n mynd i ennill! Mae'n rhaid i ni ennill heno! Dallt?

Tîm: Dallt, bos!

Gwyn: Be' mae'n rhaid i ni wneud heno?

Tîm: Mae'n rhaid i ni ennill y gêm!

Gwyn: Eto!!

Tîm: *(Yn canu)* Mae'n rhaid i ni ennill y gêm. Mae'n rhaid i ni ennill y gêm. Mae'n rhaid i ni, rhaid i ni, rhaid i ni, rhaid i ni, rhaid i ni ennill y gêm! Bwm Bwm!

Gwyn: Iawn. Mae'n rhaid i chi orffen newid ….ac mae'n rhaid i chi feddwl am y gêm. Cofiwch am y bonws! Pum mil yr un os dan ni'n ennill!

Chwaraewr 1: *(Yn dawel)* Da iawn, Gwyn. Pum mil i ennill a deg mil i golli! Oi! Ceri! Dyma di grys di.

Chwaraewr 2: Diolch. A dyma dy grys di! Oes gen ti 'gel' yn dy fag di?

Chwaraewr 1: Oes. Pam? Wyt ti'n poeni am dy wallt di heddiw?

Chwaraewr 2: Ydw…..ac am y gêm.

Chwaraewr 1: Hmm. Mae'n rhaid i ni fod yn ofalus.

Chwaraewr 2: Oes. Mae'n rhaid i ni gicio'n dda. Mae'n rhaid i ni basio'n dda. Mae'n rhaid i ni daclo'n dda. Mae'n rhaid i ni redeg yn dda….Ac mae'n rhaid i ni GOLLI.

Chwaraewr 1: Ust!!! Lle mae Medwin?

Chwaraewr 2: Y goli? Dw i ddim yn siŵr. Mae ei grys o yma ac mae ei fag o yma….Dyna fo…yn siarad â Gwyn Thomas…

Chwaraewr 1: Drat! Mae'n rhaid iddo fo gadw'n dawel!

Chwaraewr 2: Dw i ddim yn meddwl bod 'na broblem. Mae Michael yn nabod ei deulu o…..

Gwyn: Iawn! Pum munud i fynd! Pawb i'r twnnel os gwelwch chi'n dda!